# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 2**

SAFONAU

**PENNOD 1**

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru*

### 10 Hysbysiad rhybuddio

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir—

(a) os ydynt wedi eu bodloni bod un neu fwy o seiliau 1 i 6 yn bodoli mewn perthynas â'r ysgol, a

(b) os yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol naill ai—

(i) heb roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu o dan adran 3 ar un neu fwy o'r seiliau hynny, neu

(ii) wedi rhoi hysbysiad rhybuddio, ond yn nhermau sy'n annigonol ym marn Gweinidogion Cymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru bennu pob un o'r canlynol yn yr hysbysiad rhybuddio—

(a) y seiliau dros ymyrryd;

(b) y rhesymau pam y maent wedi eu bodloni bod y seiliau yn bodoli;

(c) y camau y maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu eu cymryd er mwyn ymdrin â'r seiliau dros ymyrryd;

(d) y cyfnod y mae'r camau i'w cymryd ynddo gan y corff llywodraethu ("y cyfnod cydymffurfio");

(e) y camau y maent â'u bryd ar eu cymryd os bydd y corff llywodraethu yn methu â chymryd y camau sy'n ofynnol.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu ysgol, rhaid iddynt yr un pryd ag y byddant yn rhoi'r hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu roi copi o'r hysbysiad rhybuddio i—

(a) yr awdurdod lleol;

(b) y pennaeth;

(c) os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw'r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.